

Case study: Bazzi Day Nurseries LTD, Pencoed, Bridgend. Very concerned for our future.

We are a nursery that provides care for 0- to 8-year-olds. Our setting times are: Full day 7.30 to 6pm, am session 7.30 to 1pm, pm session 1 to 6pm.

We provide the childcare offer for 3-year-olds, and we are an education provider. As well as a childcare and education provider, we also offer Flying Start for 2-year-olds that live in certain postcodes.

We have been in business since 2008, opening our first nursery in Rhondda Cynon Taff in 2008 and our second nursery in Bridgend in 2012. We have always been a profitable business, however, for the last 2 years we have noticed a decline in profits due to overheads rising by more than 20%.

With the Minimum Wage raising to £11.44 and now including over 21-year-olds, and with costs in all consumer goods and utility bills rising we are worried for the future of the nursery, and we recognise that other nurseries are struggling too.

The increase NIC for employers and employees has seen a dramatic increase in our wages bill.

Staffing

Although we feel our employees should be paid more than the living wage, and we always try to pay above the minimum wage, the increase that was set in April along with the other increases in business costs will have an impact on our profit/loss. Due to the nursery being heavily regulated and the costs incurred to retain those standards, there is no movement to cut costs.

Nursery nurses work very hard in a very responsible job and should be paid a better salary; however, nursery business cannot pay what they are worth due to high business costs. Nursery Nurses are leaving the profession and moving to careers with less responsibility and more pay. Colleges are not having the intake of students as they have had in previous years.

We have had problems recruiting qualified nursery nurses and for this reason we are finding it difficult to increase our intake of children. This is still an ongoing problem and needs to be followed up by the government.

Out of those who have applied for the vacancies that we have advertised over the last 2 years, only 20 percent have turned up for the interview, the other 80 percent did not even contact to say they could not attend the interview, that raises questions of why they applied.

We have received an email from our training provider stating that the Welsh Government have made budget cuts to the apprenticeships. This is just going to add further problems in recruiting nursery nurses.

We are very concerned that nurseries are struggling in all areas, and we have heard of nurseries having to close due to the immense pressure in the industry and rising costs.

Childcare Offer

We registered for the Childcare offer to enable parents to cover the costs of their fees.

Due to rising costs, we have had to increase our nursery fees, however the childcare offer daily amount parents can claim has only increased by 0.50 pence in 4 years. Without the funding rate increasing further we are unable to increase our nursery fees for parents accessing the Childcare Offer, to cover our costs as the Welsh Government states we cannot charge parents more than the Childcare Offer daily rate, therefore we are losing money by offering the Childcare Offer.

We feel the Childcare Offer daily rate should increase in line with rising costs that nurseries have incurred over the last 3 years.

It is a part time job completing paperwork for the Childcare Offer and educational funding, alongside explaining to the parents how both work as there are too many stipulations that parents do not understand as it is not explained in detail and in layman's terms by the government.

Different rules in each Local Authority

Another difficulty we as a nursery are experiencing is the different rules between the Local Authorities (LA).

We have two nurseries close to each other; however they are in different authorities, and this can sometimes cause problems as each authority has a different set of rules, therefore confusing.

Both LA's are supportive and are always there to give advice, however we would like all authorities to work together to ensure that they are working to the same rules to make it easier and less confusing for nurseries to manage more effectively.

Both LA's offer various grants for nurseries to provide both training opportunities and resources for the nurseries, including education and without these grants we would find ourselves in more financial difficulties. Sometimes the resource grants provided are not what we need as we already have the resources.

It would benefit nurseries to have less grants for equipment resources and more to help with providing help towards increasing staff wages, so employees feel valued for all the hard work and care they provide.

Would like to say a big thank you to the childcare team for their support throughout the years.

Other financial issues

In April 2014 employers were unable to reclaim statutory sick pay. This was an added expense to the business. In the last 2 years we have had a total of 6 employees on long term sick that we have had to replace with agency staff at double the cost of our hourly pay rate, along with paying SSP and the holiday entitlement of the employee on the sick.

I really feel the government have let nurseries down, they want us to be a country whereby all parents are able to work and are provided with opportunities to do so. However, without childcare, parents will find it difficult to work, which could subsequently result in additional costs for the government. The number of parents who have stated it is not worth them working as they will earn more at home than going to work is very worrying.

We have put our hearts and soul into our business, we have worked a 50-hour week for 15 years and built up a successful business, and now we find ourselves in a financial situation that is putting a strain on our business and on ourselves as directors.

We increased our fees in January 2024, however this increase will not cover the income we will lose from three-year-olds going to school in September. We cannot increase fees further as working parents are struggling already.

I am worried about the future of nurseries and the future of all employers in business.

Employees are struggling with the amount of paperwork, and this has an effect on their wellbeing along with the responsibility they have taking care of children.

Management and directors are constantly dealing with employee's wellbeing, without any help for their own wellbeing, this can be a very exhausting yet a very important job. However directors and management are not trained to carry out wellbeing talks, they are just trying to support in any way they can, but it is now having an impact on themselves.

We as employers recognise that being in business is extremely difficult and sometimes not worth the struggle and effort for our own wellbeing.

Those working in government need to act on the problems nurseries are facing now before it is too late.

**Helen Norman & Maria Williams
Directors of Bizzi Day Nurseries LTD**

Case study: Rate Review. Bizzi Day Nurseries LTD, Pencoed, Bridgend. V0.1 – JULY 2024

Astudiaeth Achos: BIZZI DAY NURSERIES LTD, PENCOED, PEN-Y-BONT.

Yn bryderus iawn am ein dyfodol.

Rydym yn feithrina sy'n darparu gofal i blant 0 i 8 oed. Ein horiau agor yw: gofal ddydd llawn 7.30yb i 6yh, sesiwn bore 7.30yb i 1yp, sesiwn prynhawn 1yp i 6yh.

Rydym yn cynnig y Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant 3 oed, ac rydym yn ddarparwr addysg. Yn ogystal â bod yn ddarparwr gofal plant ac addysg, rydym hefyd yn cynnig Dechrau'n Deg ar gyfer plant 2 oed sy'n byw mewn codau post penodol.

Rydym wedi bod mewn busnes ers 2008. Agorwyd ein meithrina gyntaf yn Rhondda Cynon Taf yn 2008, a'n ail feithrina ym Mhen-y-bont yn 2012. Rydym erioed wedi bod yn fusnes proffidiol, foddy bynnag am y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi sylwi ar ostyngiad yn ein helw oherwydd bod costau cyffredinol wedi codi yn fwy na 20%.

Gyda'r Isafswm Cyflog yn codi i £11.44, sydd bellach yn cynnwys pobl dros 21 oed, ynghyd â chostau nwyddau defnyddwyr a biliau cyfleustodau yn codi, rydym yn poeni am ddyfodol y feithrina, ac rydym yn cydnabod bod meithrinfeidd eraill yn ei chael hi'n anodd hefyd.

Mae'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer cyflogwyr a staff wedi arwain at gynnydd dramatig yn ein bil cyflogau.

Staffio

Er ein bod yn teimlo y dylai ein staff gael eu talu mwy na'r cyflog byw, ac er ein bod bob amser yn ceisio talu uwchlaw'r isafswm cyflog, bydd y cynnydd a osodwyd yn Ebrill ynghyd â'r cynnydd arall mewn costau busnes yn cael effaith ar ein helw / colled. Oherwydd bod y feithrina yn ddarostyngedig i reoliadau llym a'r costau sydd eu hangen i gynnal y safonau hynny, nid oes hyblygrwydd i leihau costau.

Mae nyrsys meithrin yn gweithio'n galed iawn mewn swyddi cyfrifol a dylid talu cyflog gwell; foddy bynnag, ni all busnesau meithrin dalu'r hyn y maent yn eu haeddu oherwydd costau busnes uchel. Mae nyrsys meithrin yn gadael y proffesiwn ac yn symud i yrfaedd gyda llai o gyfrifoldeb a mwy o gyflog. Nid yw colegau yn cofrestru cymaint o fyfyrwyr ag y gwnaethant mewn blynnyddoedd blaenorol.

Rydym wedi cael trafferth reciwtio nysys meithrin cymwysedig ac am y rheswm yma rydym yn ei chael hi'n anodd i gynyddu nifer y plant gallwn dderbyn. Mae hyn yn broblem barhaus ac mae angen i'r llywodraeth fynd i'r afael â hyn.

Dros y 2 flynedd ddiwethaf, ymhllith y rhai a wnaeth gais am swydd wag a hysbysebwyd, dim ond 20% a fynychodd eu cyfweliadau. Ni chysylltodd yr 80% arall â ni er mwyn rhoi rheswm am beidio mynchu'r cyfweliad, sy'n codi'r cwestiyn pam y gwnaethant gais yn y lle cyntaf.

Cawsom e-bost gan ein darparwr hyfforddiant yn ein hysbysu bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud toriadau cyllideb i raglenni prentisiaeth. Bydd hyn ond yn ychwanegu at ein hanawsterau wrth reciwtio nysys meithrin.

Rydym yn bryderus iawn bod meithrinfeydd yn ei chael hi'n anodd ym mhob maes, ac rydym wedi clywed am feithrinfeydd yn gorfol cau oherwydd y pwysau aruthrol yn y diwydiant a chostau cynyddol.

Cynnig Gofal Plant

Rydym wedi cofrestru ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i alluogi rhieni i dalu gostau ffioedd.

Oherwydd costau cynyddol, bu'n rhaid i ni gynyddu ein ffioedd meithrin. Fodd bynnag, mae'r swm dyddiol y gall rhieni ei hawlio drwy'r cynnig gofal plant ond wedi cynyddu 0.50 ceiniog yn ystod y 4 blynedd diwethaf. Heb i'r gyfradd ariannu gynyddu ymhellach, ni allwn gynyddu ein ffioedd meithrin i rieni sy'n defnyddio'r Cynnig Gofal Plant i dalu am ein costau, gan fod Llywodraeth Cymru yn datgan na allwn godi mwy ar rieni na'r gyfradd ddyddiol y Cynnig Gofal Plant, felly rydym yn colli arian drwy gynnig y Cynnig Gofal Plant.

Rydym yn teimlo y dylai'r gyfradd ddyddiol Cynnig Gofal Plant gynyddu yn unol â chostau cynyddol y mae meithrinfeydd wedi'u hysgwyddo dros y 3 blynedd diwethaf.

Mae cwblhau gwaith papur ar gyfer y Cynnig Gofal Plant a chyllid addysgol yn swydd ran-amser ynddo'i hun, ochr yn ochr ag egluro i rieni sut mae'r ddau yn gweithio. Mae gormod o amodau nad yw rhieni'n eu deall oherwydd nad ydynt yn cael eu hesbonio'n fanwl nac yn nhermau lleygwr gan y llywodraeth.

Rheolau gwahanol ym mhob Awdurdod Lleol

Anhawster arall rydym fel meithrinfia yn ei wynebu yw'r rheolau gwahanol rhwng yr Awdurdodau Lleol (ALI).

Mae gennym ddwy feithrinfa yn agos at ei gilydd, foddy bynnag maent mewn awdurdodau gwahanol, ac weithiau gall hyn achosi problemau gan fod gan bob awdurdod set wahanol o reolau, ac felly'n ddryslyd.

Mae'r ddau ALI yn gefnogol ac maent bob amser yno i roi cyngor, foddy bynnag, hoffem i bob awdurdod gydweithio i sicrhau eu bod yn gweithio i'r un rheolau i'w gwneud yn haws ac yn llai dryslyd i feithrinfeydd reoli'n fwy effeithiol.

Mae'r ddau ALI yn cynnig grantiau amrywiol ar gyfer meithrinfeydd i ddarparu cyfleoedd hyfforddi ac adnoddau i'r meithrinfeydd, gan gynnwys addysg, a heb y grantiau hyn byddem mewn mwy o anawsterau ariannol. O bryd i'w gilydd, nid yw'r grantiau adnoddau a ddarperir yn addas ar gyfer ein hanghenion gan fod gennym yr adnoddau angenrheidiol eisoes.

Byddai'n fuddiol i feithrinfeydd gael llai o grantiau ar gyfer adnoddau offer a mwy i helpu i ddarparu cymorth tuag at gynyddu cyflogau staff, fel bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am yr holl waith caled a gofal y maent yn eu darparu.

Hoffem ddweud diolch yn fawr i'r tîm gofal plant am eu cefnogaeth dros y blynnyddoedd.

Materion ariannol eraill

Ym mis Ebrill 2014 ni allai cyflogwyr hawlio ad-daliad tâl salwch statudol. Roedd hyn yn gost ychwanegol i'r busnes. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi cael 6 aelod o staff ar absenoldeb salwch hirdymor, gan ein harwain i ddefnyddio staff asiantaeth ddwywaith ein cyfradd arferol yr awr, ynghyd a thalu tal salwch statudol a hawl gwyliau'r staff sâl.

Rwyf wir yn teimlo bod y llywodraeth wedi siomi meithrinfeydd, maen nhw am i ni fod yn wlad lle mae pob rhiant yn gallu gweithio, ac yn cael cyfleoedd i wneud hynny. Fodd bynnag, heb ofal plant, bydd rhieni'n ei chael hi'n anodd gweithio, a allai wedyn arwain at gostau ychwanegol i'r llywodraeth. Mae nifer y rhieni sydd wedi dweud nad yw'n werth iddynt weithio gan y byddant yn ennill mwy gartref na mynd i'r gwaith yn peri pryder mawr.

Rydym wedi rhoi ein calonnau a'n henaid yn ein busnes, rydym wedi gweithio wythnos 50 awr am 15 mlynedd ac wedi adeiladu busnes llwyddiannus, a nawr rydym mewn sefyllfa ariannol sy'n rhoi straen ar ein busnes ac ar ein hunain fel cyfarwyddwyr.

Cynyddom ein ffioedd ym mis Ionawr 2024, foddy bynnag ni fydd y cynnydd hwn yn cwmpasu'r incwm y byddwn yn ei golli gan blant tair oed sy'n mynd i'r ysgol ym mis Medi. Ni allwn gynyddu ffioedd ymhellach gan fod rhieni sy'n gweithio yn ei chael hi'n anodd yn barod.

Rwy'n pryeru am ddyfodol meithrinfeidd a dyfodol pob cyflogwr mewn busnes.

Mae staff yn cael trfferth gyda'r llwyth gwaith papur, ac mae hyn yn cael effaith ar eu lles ynghyd â'r cyfrifoldeb sydd ganddynt i ofalu am blant.

Mae rheolwyr a chyfarwyddwyr yn delio'n gyson â lles staff, ond nid ydynt yn derbyn unrhyw gymorth ar gyfer lles eu hunain, gall hyn fod yn swydd flinedig iawn ond eto'n un bwysig iawn. Fodd bynnag, nid yw cyfarwyddwyr a rheolwyr wedi'u hyfforddi i gynnal sgyrsiau lles, maent yn ceisio cefnogi mewn unrhyw ffordd y gallant, ond mae hyn nawr yn cael effaith arnyn nhw.

Fel cyflogwyr, rydym yn cydnabod bod rhedeg busnes yn eithriadol o heriol ac ar adegau, efallai na fydd yr ymdrech yn werth chweil i'n lles ein hunain.

Mae angen i'r rhai sy'n gweithio yn y llywodraeth weithredu ar y problemau y mae meithrinfeidd yn eu hwynebu nawr cyn ei bod hi'n rhy hwyr.

Helen Norman & Maria Williams

Cyfarwyddwyr Bizzi Day Nurseries LTD

Astudiaeth achos: Adolygiad Cyfradd. Bizzi Day Nurseries LTD, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr. V0.1 – GORFFENNAF 2024